**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

25 Gorffennaf 2022

Annwyl gyfaill

**Ymgynghoriad - Profiadau o'r system cyfiawnder troseddol: profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol**

Mae **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd** yn edrych ar brofiadau gwahanol grwpiau o bobl yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Menywod sy’n cyfrif am tua 5 y cant o boblogaeth y carchardai, ond mae ffigurau gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol na dynion o adrodd am broblemau iechyd meddwl, adrodd am ddioddef cam-drin emosiynol, corfforol neu rywiol fel plentyn, bod yn y carchar am eu trosedd gyntaf, a bod â phroblem cyffuriau neu alcohol wrth ddod i mewn.

Fel rhan o gyfres o ymchwiliadau byr, bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn edrych yn strategol ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, gyda’r bwriad o nodi materion y gallai fod angen bwrw golwg manylach arnynt.

Bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o wasanaethau i droseddwyr benywaidd, a bydd hefyd yn ceisio gwella dealltwriaeth o anghenion penodol menywod sy'n troseddu a’r hyn sy’n eu gwneud yn agored i niwed.

Gwahoddiad i gyfrannu i’r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Wrth ymateb, byddai’n ddefnyddiol cael eich sylwadau ar y cylch gorchwyl, sef ystyried:

- y cynnydd a wneir, os o gwbl, gan Lywodraeth Cymru tuag at wireddu ei huchelgeisiau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i droseddwyr benywaidd, gan gynnwys gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd;
- y dystiolaeth o blaid datblygu Canolfannau Adsefydlu Menywod a’r dadleuon dros leihau dedfrydau o garchar i fenywod yng Nghymru, gan gynnwys safbwyntiau ar y Ganolfan i Fenywod a fydd yn agor yn Abertawe;
- ·a’r ddarpariaeth a chymorth priodol sydd ar gael ar hyn o bryd i grwpiau gwahanol o fenywod sydd wedi’u dedfrydu i’r carchar, gan gynnwys menywod o dan 18 oed, menywod ag anableddau, menywod â phroblemau iechyd meddwl, menywod o leiafrifoedd ethnig, menywod sydd wedi dioddef

trais rhywiol neu gam-drin domestig, menywod â phroblemau gydag alcohol neu gyffuriau, a menywod Cymraeg eu hiaith.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 23 Medi 2022.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi at: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**

## Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y **canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau i gael y manylion llawn**.

## Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

## Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**

Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.